



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Y Fro / The Vale

Llawlyfr y Dysgwr 2024/2025

Dysgu Cymraeg y Fro

Learn Welsh the Vale

Learner Handbook 2024/2025





Mynegai

| | |
|--------------------------------------|----|
| Croeso..... | 3 |
| Lefelau Dysgu Iaith..... | 3 |
| Cyrsiau | 3 |
| Ffioedd & Thalu..... | 7 |
| Cefnogaeth Ariannol | 9 |
| Gwarchod eich Data | 10 |
| Cwyno a Chanmol | 10 |
| Gwersi..... | 11 |
| Cefnogaeth gyda Sgiliau Digidol..... | 15 |
| Mynychiant ac Absenoldeb..... | 16 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol..... | 16 |
| Diogelwch Oedolion a Phlant..... | 17 |
| Cydraddoldeb..... | 17 |
| Dathlu a Siarad gyda'n Gilydd | 20 |
| Gwybodaeth Cysylltu..... | 21 |
| Staff Dysgu Cymraeg y Fro | 21 |
| Ariannu Dysgu Cymraeg | 23 |



Croeso

Diolch am eich diddordeb mewn cwrs Dysgu Cymraeg. Bwriad y llawlyfr hwn yw rhoi gwybod i chi amdanom ni a sut gallwn ni eich cefnogi chi wrth i chi ddysgu Cymraeg.

Lefelau Dysgu Iaith

What Level?

Welsh courses are available at five levels:

Entry: Courses for beginners, where the emphasis is on conversational Welsh. Learn how to use the present, past and future on this level!

Foundation: Students can expand their speaking skills. The course will cover other tenses including conditional.

Intermediate: More writing, reading, and listening is introduced - but the emphasis is still on speaking the language whilst revising work covered on Entry and Foundation

Advanced: Courses help students strengthen their written skills and more complex grammar points but mainly concentrate on enhancing speaking skills.

Proficiency: For experienced learners as well as fluent speakers who want to improve their skills.

Pa Lefel?

Mae cyrsiau Cymraeg ar gael ar bum lefel:

Mynediad: Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, ble mae'r pwysais ar siarad yr iaith. Dysgwch sut i ddefnyddio'r presennol, gorffennol a'r dyfodol ar y lefel hon.

Sylfaen: Cyfle i fyfyrwyr grythau eu sgiliau siarad. Bydd cyfle i ddysgu amseroedd gwahanol gan gynnwys yr amodol.

Canolradd: Mae'r prif nod yn dal i fod ar siarad ond mae pwyslais hefyd ar ysgrifennu, darllen a gwrando wrth adolygu popeth wnaethpwyd

Uwch: Mae cyrsiau yn helpu myfyrwyr i cryfhau eu sgiliau ysgrifennu a dysgu am elfennau mwy cymhleth ei gramadeg ond gwella sgiliau siarad yw'r prif nod o hyd.

Hyfedredd: Ar gyfer dysgwyr profiadol yn ogystal a siaradwyr rhugl sydd eisiau cryfhau eu sgiliau.

How FAST? - talk to us about how to speed up your learning

Pa mor GYFLYM? - Siaradwch â ni am sut i gyflymu'ch dysgu

Cyrsiau

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn ddarparu cyrsiau ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac mae gwybodaeth am y cyrsiau rheiny yma www.dysgucymraeg.cymru/yfro



Bydd tiwtoriaid penodol yn gyfrifol am bob un cwrs ac yn parhau i addysgu'r dosbarth drwy gydol y flwyddyn, oni bai bod anhawster annisgwyl.

Ble mae ein Cyrsiau?

Dyn ni'n addysgu llawer o gyrsiau ar Zoom ond hefyd mae cyrsiau wyneb yn wyneb.

Ambell dro bydd dosbarth wyneb yn wyneb yn cysylltu gyda dysgwyr o bell drwy Zoom hefyd yn yr un wers (dyn ni'n galw hyn yn Ddysgu Hybrid).

Dysgu Cyfunol – (Blended Learning)

Mae hefyd cyrsiau 'Cyfunol' sy'n cyfuno dysgu ar-lein gyda hunan-astudio gyda deunyddiau dysgu rhyngweithiol ychwanegol ar wefan www.dysgucymraeg.cymru. Mae hunan-astudio cyn pob gwers yn galluogi cynnydd cyflymach, ac ar y cyrsiau hyn mae cefnogaeth ddigidol i'r dysgwr gan y tiwtor yn ogystal â gwersi mewn grŵp gyda'r tiwtor.

Mae Dysgu Cyfunol ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd Ond nid lefelau Uwch.

Bydd dysgwr Cyfunol sy'n gwneud hunan-astudio unwaith yr wythnos a gwers gyda thiwtor unwaith yr wythnos yn cwblhau un lefel y flwyddyn.

Cyflymder Dysgu

Ceir dewis o gyflymder yn ein rhaglen o gyrsiau:

- Un wers bob wythnos – dwy awr gyda thiwtor, mewn dosbarth/ar Zoom a bydd dysgwr yn cwblhau hanner lefel mewn blwyddyn – 30 gwers.
- Dwy wers dwy awr bob wythnos- gyda thiwtor, mewn dosbarth neu ar Zoom a bydd dysgwr yn cwblhau un lefel gyfan mewn blwyddyn – 60 gwers.



- Dysgu Cyfunol - 2.5 i 3 awr mewn gwrs ar-lein gyda thiwtor, a dwy awr o hunan-astudio wythnosol- bydd y dysgwr yn cwblhau un lefel mewn blwyddyn.
- Cwrs Bloc- Dwys Iawn- Dyma'r cwrs cyflymaf. Un wythnos ar y tro o wersi drwy'r dydd, dydd Llun i ddydd Gwener, tua unwaith y mis. Bydd dysgwr yn cwblhau un lefel mewn chwech wythnos neu ddau lefel mewn blwyddyn o 12 wythnos bloc. Mae'r cyrsiau bloc ar gael ar Zoom yn unig.

Dewis mwy nag un cwrs

Mae croeso i ddysgwr ymrestru ar fwy nag un cwrs ar y tro. Bydd y dysgwr yn cael yr ail gwrs am hanner pris. Dyn ni'n annog myfyrwyr y cwrs bloc i fynychu cwrs wythnosol yn ogystal, er mwyn cael y cyfle i ymarfer a pharhau i wneud cynnydd rhwng y blociau.

Arholiadau Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Mae CBAC yn darparu arholiadau *Cymraeg i Oedolion* o'r enw "*Defnyddio'r Gymraeg*". Mae'r arholiadau ar gael ar lefel Mynediad ddwywaith y flwyddyn (ym mis Ionawr ac ym mis Mehefin); a lefel Sylfaen, Canolradd ac Uwch dim ond ym mis Mehefin. Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn cynnal yr arholiadau yn Llyfrgell y Barri fel arfer. Disgwylir bydd pob lefel o arholiad yn cael ei gynnig yn llawn yn 2024/25.

Gall ddysgwyr ddewis i sefyll arholiad ar ddiwedd lefel, neu yn y flwyddyn ganlynol. Bydd pob ymgeisydd sydd ar un o'n cyrsiau ni yn cael gwybodaeth, cyngor a deunyddiau adolygu, a chwrs adolygu am ddim i'w helpu i baratoi at yr arholiad.

Ceir gwybodaeth am arholiadau ar wefan CBAC [yma](#).

Cyrsiau Blasu

Mae cyrsiau *Blasu* yn rhoi cyfle i bobl gael y profiad o fod mewn dosbarth yn dysgu gyda thiwtor, ar-lein neu mewn dosbarth



wyneb yn wyneb. Mae cyrsiau Blasu yn rhad ac am ddim ac yn para rhwng un a thair gwrs.

Mae cwrs Blasu rhad ac am ddim digidol ar gael ar wefan www.dysgucymraeg.cymru

Clybiau Darllen

Mewn *Clwb Darllen* bydd tiwtor a dysgwyr yn darllen llyfr gyda'i gilydd. Mae clybiau darllen yn rhad ac am ddim, ond disgwylir i'r dysgwyr brynu copi o'r llyfr cyn y wers gyntaf. Mae amlder y clybiau darllen yn amrywio.

Cyrsiau Adolygu

Trefnir cyrsiau adolygu ar gyfer dysgwyr Dysgu Cymraeg y Fro sy'n dewis sefyll arholiad Defnyddio'r Gymraeg CBAC. Bydd pob ymgeisydd yn cael cynnig cwrs adolygu rhad ac am ddim. Yn ystod y cwrs bydd cyfle i ymarfer elfennau o'r arholiad yn cynnwys cyfweiliad llafar un i un gyda thiwtor, gydag adborth unigol i ddilyn.

Sadyrnau Siarad a Gwenerau Gweithgareddau

Tua dwywaith y tymor trefnir Sadwrn Siarad neu Gwener Gweithgareddau, sef cyfle i ddysgwyr ymarfer ac adolygu eu Cymraeg gyda dysgwyr eraill a thiwtoriaid. Cynhelir rhai Sadyrnau ar Zoom a rhai wyneb yn wyneb. Amserau'r Sadyrnau Siarad yw 9.30-13.00a'r Gwenerau 13.00-15.00.

Ymrestru

Ceir rhestr lawn o gyrsiau Dysgu Cymraeg y Fro yn: www.dysgucymraeg.cymru/yfro

Pan dych chi wedi dewis cwrs, dilynwch y cyfarwyddiadau i ymrestru a thalu ar y wefan.

Er mwyn cael cyngor neu drafod eich dewisiadau mae croeso i chi gysylltu drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.



Ffioedd & Thalu

Mae pob cwrs o 60 awr neu hirach yn costio £100.00

Mae **gostyngiadau** ar gael i ddysgwyr sy'n derbyn budd-daliadau wedi'i selio ar incwm, ac i fyfyrwyr llawn amser. Gellir trefnu rhannu'r taliad dros dri mis os oes angen.

Cynigion arbennig:

Talwch am un cwrs a chewch ail gwrs am hanner pris.

Weithiau mae cynigion arbennig ar gael sy'n rhoi gostyngiad/disgownt. Os dych chi ddim wedi gweld hysbyseb gyda chod disgownt, cysylltwch â'r swyddfa i holi os oes cynnig cyfredol.

Cyrsiau rhad ac am ddim:

Mae'r meini prawf cymhwysedd wedi'u hehangu i annog mwy o bobl i ddechrau, neu ddychwelyd at ddysgu'r Gymraeg.

Os ydych chi'n derbyn budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau neu os ydych chi wedi cael eich cofrestru yn rhywun sy'n chwilio am swydd, neu os ydych chi'n perthyn i grŵp sy'n cael ei ystyried yn un sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ymhlith ein dysgwyr, gallai eich cwrs fod yn rhad ac am ddim.

Rhaid i chi fodloni'r meini prawf isod i fod yn gymwys:

- Heb dderbyn cwrs Dysgu Cymraeg am ddim yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol
- Byw yng Nghymru

Ac mae'n rhaid ichi fodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Rydych chi'n Ddu, Asiaidd, neu yn perthyn i leiafrif ethnig arall
- Mae gennych chi anabledd
- Rydych yn ofalwr cofrestredig



- Rydych wedi gadael gofal tra'n blentyn, neu wedi cael profiad o ofal
- Rydych chi'n ffoadur neu'n geisiwr lloches
- Rydych chi o dan 25 oed
- Rydych chi'n rhan o'r gweithlu addysg

Neu:

- Rydych yn derbyn budd-daliadau cymwys:
 - Credyd Cynhwysol
 - Cymhorthdal Incwm
 - Budd-dal tai
 - Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag Incwm
 - Gostyngiad Treth Cyngor
 - Credyd Treth Gwaith
 - Credyd Treth Plant
 - Pensiwn y wladwriaeth
 - Taliad Annibyniaeth Personol
 - Grant Hanfodion Ysgol

Anfonwch dystiolaeth o'ch cymhwysedd at learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk pan fyddwch yn cofrestru, er enghraifft:

- Ciplun o'ch cyfrif budd-daliadau, neu
- Llythyr gan yr asiantaeth fudd-daliadau yn cadarnhau hawl.

Mae sganiau a ffotograffau yn dderbyniol

Rhaid i'ch dystiolaeth ddangos eich enw, eich cyfeiriad a'r budd-dal a ddyfarnwyd yn glir. Rhaid i'r dyddiad arno fod o fewn chwe wythnos i'ch cais neu ddangos yn glir bod yr hawl yn gyfredol neu'n barhaus.



Staff y Cyngor: Caiff **staff Cyngor Bro Morgannwg** ymrestru ar gwrs gyda Dysgu Cymraeg y Fro yn rhad ac am ddim ac o fewn oriau gwaith. Ymrestrwch ar y wefan heb dalu, wedyn cysylltwch â swyddfa Dysgu Cymraeg y Fro i ofyn am ffurflen ariannu staff.

Staff Sefydliadau Eraill: Gall staff sefydliad sydd wedi cytuno i dalu am ei gwrs ymrestru ar y wefan, ac yna cysylltu â ni i ofyn i'r swyddfa anfonebu eu gweithle am y ffioedd.

Efallai byddai diddordeb gyda'ch cyflogwr chi mewn defnyddio gwasanaeth **Cymraeg Gwaith** y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ceir gwybodaeth [yma](#).

Os gwelwch yn dda talwch ar y wefan wrth ymrestru. Dyn ni ddim yn gallu derbyn taliadau gyda cherdyn yn y swyddfa na dros y ffôn. Os dych chi eisiau talu yn y swyddfa gallwch ysgrifennu siec yn daladwy i: "Cyngor Bro Morgannwg". Os dych chi'n postio siec, nodwch rif ac enw'r cwrs ar gefn y siec.

I dalu gydag arian parod os gwelwch yn dda dewch i'r swyddfa.

Tynnu nôl o'r cwrs ac Ad-daliadau

Gall dysgwr dynnu nôl o'r cwrs ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r swyddfa neu stopio mynychu. Hefyd ar ôl pedair wythnos o absenoldeb bydd dysgwr yn cael ei dynnu o'r cwrs. Ni fydd ad-daliad ar gael heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Y Swyddog Dysgu a Datblygu fydd yn ystyried unrhyw gais o'r fath ac yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan y dysgwr.

Gall person sydd wedi ymrestru ar gwrs a thalu ond heb fynychu o gwbl gysylltu â'r swyddfa i ofyn am ad-daliad o fewn mis o ddechrau'r cwrs. Yn yr achos hwn telir ad-daliad ond codir ffi prosesu o £10, a gaiff ei dynnu o'r ad-daliad.

Cefnogaeth Ariannol



Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi myfyrwyr sydd angen cymorth ariannol drwy'r Gronfa Ariannol wrth Gefn, sy'n cael ei weinyddu gan y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg. Gall rhai oedolion sy'n dysgu Cymraeg fod yn gymwys i geisio am arian o'r gronfa hon. Os gwelwch yn dda nodwch nad ych chi'n gallu ymgeisio am ffioedd cwrs o'r gronfa hon. Mae'n bosib i gostau eraill megis teithio, llyfrau a gofal plant gael eu had-dalu, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau. Ceir manylion am gymhwysedd a sut i wneud cais yma: <https://dysgucymraeg.cymru/cymorth/cronfa-ariannol/>

Gwarchod eich Data

Dych chi'n gallu gweld datganiad gwarchod data Dysgu Cymraeg sy'n dangos sut dyn ni'n prosesu a defnyddio'r wybodaeth dych chi'n ei rannu gyda ni yma.

<https://dysgucymraeg.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-11/>

Cwyno a Chanmol

Mae tîm Dysgu Cymraeg y Fro eisiau gwella ein gwasanaeth i'r dysgwyr bob amser. Dyn ni'n croesawu sylwadau ar unrhyw bryd, yn eu cofnodi ac yn ymateb iddyn nhw.

Adborth

Bob blwyddyn bydd cyfle i ddysgwyr roi adborth drwy'r holiadur swyddogol Dweud eich Dweud. Mae'r holiadur yn cael ei anfon atoch chi gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a gallwch ei lenwi yn ddiennw, a'i ddychwelyd yn ddigidol a chyfrinachol.

Bydd y Ganolfan Genedlaethol yn dadansoddi ac adrodd ar sail cenedlaethol a fesul darparwr. Golyga hyn y byddwn yn derbyn yr adborth am ein gwasanaeth ac yn gallu cymharu ein perfformiad gyda'r duedd genedlaethol. Bydd Dysgu Cymraeg y Fro yn cyhoeddi dogfen "Dwedoch chi - Gwnaethon ni" sy'n cael ei hanfon at bob



dysgwr cyfredol. Yn y ddogfen byddwn yn nodi beth wnaethon ni wrth ymateb i adborth y dysgwyr.

Sut i Gwyno

Os dych chi'n anhapus am rywbeth ar eich cwrs, dilynwch y camau isod:

- Yn y lle cyntaf siaradwch â'ch tiwtor- weithiau gall sgwrs anffurfiol yn esbonio eich teimladau neu eich cwyn fod yn ddigon i ddatrys y broblem.
- Y cam nesaf, os dych chi ddim yn gallu trafod â'r tiwtor, os yw ymateb y tiwtor yn annigonol neu os byddai trafod â'r tiwtor yn anaddas, yw i gysylltu â'r swyddfa gyda'ch sylwadau neu gwyn. Bydd y Swyddog Datblygu Addysg, Karl Davies, yn ystyried eich cwyn, yn penderfynu beth yw'r ffordd addas i ddelio gyda'r gwyn, ac yn cysylltu â chi.
- Os dych chi ddim yn fodlon gydag ymateb y Swyddog dych chi'n gallu cysylltu â Rheolwr Atal a Phartneriaethau ac Addysg Gymunedol i Oedolion, Cyngor Bro Morgannwg.
- Os dych chi ddim yn fodlon gydag ymateb ein tîm drwy'r drefn uchod dych chi'n gallu gwneud cwyn drwy broses gwyno'r Cyngor gan ddilyn y canllawiau hyn https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Complaints-and-Compliments.aspx

Sut i Ganmol

Dilynwch y camau uchod i rannu eich canmoliaeth ac adborth gadarnhaol os gwelwch yn dda. Bydd canmoliaeth yn cael ei nodi a'i adrodd i'r staff perthnasol er mwyn iddynt dderbyn pob adborth positif am eu gwaith.

Gwersi

Bydd eich tiwtor yn paratoi ac addysgu gwersi yn ôl y cwrs dych chi'n ei ddilyn.



Fel arfer bydd y dysgwyr yn cael egwyl fer yn ystod y wers. Mewn gwrs wyneb yn wyneb bydd yn bosib i adael yr ystafell a defnyddio'r cyfleusterau. Dyn ni'n awgrymu i chi ddod â diod gyda chi.

Ar Zoom mae'n bwysig i'r tiwtor a'r dysgwyr gael egwyl i godi a symud, yn hytrach nac eistedd yn llonydd am y wers gyfan.

Bydd eich tiwtor yn rhannu manylion cyswllt gyda'r dysgwyr, er mwyn cyfathrebu am wersi, gwaith cartref a phresenoldeb.

Efallai bydd y tiwtor yn awgrymu sefydlu grŵp cyfryngau cymdeithasol i'r tiwtor a'r dysgwyr ar safle fel Facebook neu WhatsApp. Manteision bod mewn cysylltiad fel grŵp yw cefnogaeth i'ch gilydd ac anogaeth, yn ogystal â rhannu negeseuon am y gwersi a rhoi gwybodaeth os bydd dysgwr wedi colli gwrs. Does dim rhaid i unrhyw ddysgwr ymuno â grŵp fel hyn. Os dych chi'n cytuno i ymuno, mae rhannu eich rhif cyswllt gyda'r lleill yn dangos eich bod yn fodlon.

Gwerslyfr

Ar y rhan fwyaf o'n cyrsiau, bydd angen i'r dysgwr brynu neu gael gafael ar y gwrslyfr. Byddwch yn derbyn manylion pa lyfr a sut i'w brynu ar ôl i chi ymrestru.

Mae meingefn meddal gyda'ch gwrslyfr, a thyllau yn barod i chi ei roi mewn ffeil gyda chylchoedd metel. Os hoffech chi ffeil mae nifer ar gael i'w hail-ddefnyddio yn ein swyddfa.

Mae'r gwrslyfrau hefyd ar gael yn ddigidol ar y wefan.

Mae'r gwrslyfrau'n cynnwys tasgau llafar, ysgrifennu, gwranddo, gwyllo a darllen, rhestrau geirfa a gwaith cartref.

Dewch â phen neu bensil a llyfr nodiadau gyda chi i bob gwrs.

Gwaith Cartref

Gyda phob uned yn y gwrslyfr mae gwaith cartref i'r dysgwr gwblhau tu allan i'r amser dosbarth. Bydd eich tiwtor yn marcio'ch



gwaith cartref a'i ddychwelyd atoch chi o fewn amser rhesymol. Mae tudalen y gwaith cartref yn gallu dod yn rhydd o'r llyfr er mwyn i chi ei roi i'r tiwtor. Dych chi'n gallu ei roi yn ôl yn eich ffeil ar ôl iddo gael ei farcio. Mae'r gwaith cartref ar gael mewn fformatau digidol gan eich tiwtor.

Adnoddau Ychwanegol

Mae llawer o adnoddau ychwanegol i gefnogi'ch dysgu ar y wefan genedlaethol www.dysgucymraeg.cymru - tasgau rhyngweithiol, deunyddiau adolygu, yr ymarferion gwranddo a gwylio a llawer mwy. Os gwelwch yn dda treuliwch amser yn chwilota ar y wefan i weld beth sydd o ddiddordeb i chi, neu gofynnwch i'ch tiwtor i helpu os dych chi ddim yn siŵr sut i ddefnyddio'r wefan.

Gwersi mewn Ystafell Dosbarth- dysgu Wyneb yn Wyneb.

Mae pob canolfan neu leoliad yn cael ei ystyried yn ofalus a'i asesu yng nghyd-destun ein Polisi Iechyd a Diogelwch. Cyn dechrau 'ch cwrs byddwch yn derbyn copi o'r arweiniad i'ch lleoliad/dosbarth chi, drwy e-bost. Gofynnwn i chi ddilyn yr arweiniad hwn, ac i fod yn ymwybodol ei fod yn bosib i hwn newid wrth ymateb i sefyllfa iechyd cyhoeddus. Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn gweithredu o fewn rheoliadau Cyngor Bro Morgannwg, ac yn addysgu cyrsiau yn ôl arweiniad mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru i ddarparu'r Addysg Ôl-16 (<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-yn-addysg-ol-16>)

Peidiwch â dod i wers nac ymweld â'r Ganolfan os oes unrhyw symptomau salwch heintus gyda chi.

Gweithgareddau'r Dosbarth: Bydd eich tiwtor yn cynllunio gweithgareddau amrywiol, ac efallai'n gofyn i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau pâr neu grŵp yn y dosbarth.

Gwersi ar Zoom

Er na fyddwch yn gallu cymysgu wyneb yn wyneb, bydd eich tiwtor yn trefnu'r wers i sicrhau bod amrywiaeth o weithgareddau, a



chyfleoedd i'r dysgwyr ymarfer eu sgiliau iaith, gyda phwyslais arbennig ar siarad. Bydd eich tiwtor yn gallu'ch arwain chi i ddefnyddio nodweddion sylfaenol Zoom, fel defnydd y botwm *Mud* (Mute) a throï eich camera ymlaen ac i ffwrdd. Bydd e neu hi'n defnyddio Ystafell Bant-â-chi (Breakout Rooms) i drefnu'r dysgwyr mewn parau neu grwpiau i wneud tasgau gyda'ch gilydd. Pan fo hyn yn digwydd, bydd angen i chi dderbyn y gwahoddiad i fynd i'r ystafell. Bydd y tiwtor yn ymweld â'r ystafell bant-â-chi i gefnogi'r dysgu. Ar ddiwedd y dasg bydd y tiwtor yn eich galw nôl i'r brif ystafell a byddwch chi'n mynd yno yn awtomatig, er dych chi'n gallu ailymuno yn gynt hefyd. Pan dych chi yn eich gwerau neu yn yr ystafell bant-â-chi dych chi'n gallu defnyddio'r nodwedd codi llaw i ofyn am sylw y tiwtor.

Diogelwch Ar-lein

Dych chi'n gallu ymuno â'ch dosbarth o unrhyw leoliad â chysylltiad â'r we, gyda'ch teclyn eich hun. Er bod manteision i hyn a wnewch chi fod yn ofalus i warchod eich preifatrwydd chi ac unrhyw un arall sydd gyda chi ar y pryd, gan gynnwys o bosib aelodau o'ch teulu chi neu blant. Ystyriwch beth fydd yn y golwg pan fo'r camera ymlaen. Bydd eich tiwtor yn gofyn i chi gadw'r camera ymlaen gymaint â phosib, felly ceisiwch ddewis lle i eistedd gyda chefnidir niwtral. Os oes pobl eraill o gwmpas pan fyddwch chi yn eich gwerau, mudwch (mute) eich meicroffon i sicrhau nad yw'r sŵn yn y cefndir yn amharu ar y wers. Gallwch chi ddad-fudo (unmute) i siarad ac wedyn mudo eto. Defnyddiwch eich botwm camera yn ofalus - er enghraifft, os dych chi gartre ac mae'ch plant yn dod i ddweud "Nos da" yn eu *pyjamas*, diffoddwch y camera am ychydig funudau er mwyn gwarchod eu preifatrwydd.

Dilynwch y ddolen hon i ddarllen cyngor am ddiogelwch mewn dosbarthiadau ar lein <https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/>.



Absenoldeb y tiwtor, Tywydd Gwael a Chau achos Amgylchiadau Anrhagweladwy

Os bydd eich tiwtor yn methu dysgu am ba bynnag reswm, gwnawn ein gorau i drefnu cyflenwi'r wers gyda thiwtor arall o'r tîm. Os bydd hyn yn amhosib, bydd y wers yn cael ei gohirio, a bydd dyddiad arall yn cael ei drefnu gyda'r dysgwyr am wers ddal-i-fyny. Bydd y tiwtor neu staff y swyddfa yn cysylltu â'r dysgwyr i roi gwybod os bydd y wers yn cael ei gohirio.

Mewn achos tywydd gwael, argyfwng lleol neu amgylchiadau anrhagweledig eraill, bydd y tiwtor yn cynnig y gwersi ar Zoom.

Os gwelwch yn dda rhowch wybod i ni os bydd eich manylion cyswllt yn newid, neu newidiwch nhw ar y wefan.

Cefnogaeth gyda Sgiliau Digidol

Bydd eich tiwtor yn eich helpu i ddefnyddio Zoom. Ond os hoffech chi ddatblygu eich sgiliau a/neu hyder wrth ddefnyddio cyfrifiadur, cluniadur neu lechen, mae hyfforddiant a chyrsgiau ar gael ar raglen Nôl ar y Trywydd Iawn, sy'n cael eu cynnal yng Nghanolfan Palmerston. Mae llawer o'r cyrsiau hyn yn rhad ac am ddim i ddysgwyr. Cysylltwch â swyddfa Dysgu Cymraeg y Fro neu swyddfa Canolfan Palmerston i holi neu ymrestru.

Cyfrifiaduron a Theclynnau Digidol

Er mwyn cael y cyfle gorau yn eich gwersi ar-lein bydd angen i chi ddefnyddio cyfrifiadur, cluniadur neu lechen gydag ap Zoom wedi'i lwytho'n barod. Er ei bod yn bosib ymuno â chyfarfod Zoom ar ffôn clyfar, nid yw'n rhoi'r un nodweddion i chi felly fyddwch chi ddim yn gallu cymryd rhan yn y wers yn llawn.

Mae llechi Samsung ar gael i'w benthyc gan Dysgu Cymraeg y Fro, ar gyfer ei dysgwyr. Os hoffech chi gael benthyc un, cysylltwch â'r swyddfa.



Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu cael benthyg iPad gan wasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Bro Morgannwg. Mae gwybodaeth cysylltu yma:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/enjoying/Libraries/Val-e-Tablet-Loan-Scheme.aspx>

Mynychder ac Absenoldeb

Mae tiwtoriaid yn marcio presenoldeb ar gofrestr ddigidol sy'n cael ei storio'n ddiogel ar wefan genedlaethol Dysgu Cymraeg. Os dych chi ddim yn gallu dod i wers, os gwelwch yn dda dwedwch wrth y tiwtor, cyn y wers.

Ar ôl dau absenoldeb dilynol bydd y tiwtor yn cysylltu â chi, oni bai eu bod wedi clywed wrthoch chi yn y cyfamser.

Ar ôl pedwar absenoldeb o'r bron byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y cwrs. Os hoffech chi ailymuno â'r cwrs bydd angen i chi gysylltu â'r swyddfa i gael eich ail-ymrestru.

Dal i fyny

Mae pob math o bethau'n digwydd mewn bywydau bob-dydd allai effeithio ar eich gallu chi i ddod i'ch gwersi Cymraeg. Bydd eich tiwtor yn gwneud pob ymdrech i'ch cefnogi, a'ch helpu i ddal i fyny os byddwch chi'n colli gwrs neu ddwy. Os dych chi'n colli tair neu fwy o wersi bydd hi'n anoddach i chi ddal i fyny wrth ddychwelyd i'r dosbarth, ond peidiwch â phoeni- gallwn ni helpu! Siaradwch â'ch tiwtor, neu cysylltwch â'r swyddfa a byddwn ni'n trefnu help i chi. Mae'n bosib gallwn eich arwain chi at ddeunyddiau adolygu ar lein, neu drefnu sesiwn ddal-i-fyny gydag un o'r tîm ar amser sy'n gyfleus i chi.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Wrth ymrestru ar-lein mae dysgwr yn cael y cyfle i nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol neu gyflwr y maen nhw eisiau i'r gwasanaeth fod yn ymwybodol ohono. Wrth dderbyn y wybodaeth, bydd staff y swyddfa yn cysylltu â'r dysgwr i holi am ganiatâd i



flaenyrru'r wybodaeth at y tiwtor. Pan fydd y tiwtor wedi derbyn hyn, bydd yn cynllunio addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys ym mhob agwedd o'r addysgu. Dyn ni'n annog y dysgwr i drafod ei anghenion gyda'r tiwtor, yn enwedig os maen nhw'n gallu gwneud addasiadau sy'n ateb gofynion y dysgwr. Mae unrhyw ddysgwr a ddewisodd peidio â datgan ei anghenion wrth ymrestru yn gallu cael sgwrs gyda'r tiwtor i'w trafod yn gyfrinachol.

Mae pob tiwtor yn nhîm Dysgu Cymraeg y Fro yn derbyn hyfforddiant am Anghenion Dysgu Arbennig ac anghenion dysgu eraill. Bydd eich tiwtor yn ymateb mewn ffordd sensitif i'ch angen ac o bosib bydd yn gofyn am gefnogaeth, cyngor neu hyfforddiant pellach gan yr Uwch Diwtor er mwyn dysgu sut i'ch helpu chi yn y ffyrdd mwyaf addas. Mae croeso i chi gysylltu â ni yn y swyddfa os dych chi eisiau trafod ffyrdd dyn ni'n gallu gwella eich profiad dysgu chi.

Diogelwch Oedolion a Phlant

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn gweithredu polisi Cyngor Bro Morgannwg ar Warchod Oedolion Bregus a Diogelu Plant. Os oes gofid gyda chi am rywun yn eich dosbarth neu'ch cartref gallwch adrodd hyn i'ch tiwtor yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn bosib neu yn addas, os gwelwch yn dda cysylltwch â'r Karl Davies, Swyddog Datblygu Addysg, Dysgu Cymraeg y Fro ar 01446-730402.

Dych chi'n gallu gweld y polisi a gwybodaeth Cyngor Bro Morgannwg am Ddiogelu yma [plant](#) ac [oedolion](#).

Cydraddoldeb

Mae staff Dysgu Cymraeg y Fro yn croesawu dysgwyr o bob oed o 16 a throsodd, beth bynnag eu cefndir neu cymwysterau addysgol, hil, rhywioldeb, rhyw neu ethnigrwydd. Mae'n dosbarthiadau ni'n amrywiol ac yn cynnwys pobl gydag amrywiaeth eang o allu.



Mae polisi cydraddoldeb Cyngor Bro Morgannwg ar gael [yma](#).

Pwy yw ein Dysgwyr?

Tra bod mwyafrif ein dysgwyr yn byw ym Mro Morgannwg, mae rhai yn teithio yma o ardaloedd cyfagos er, ac ers inni ddechrau addysgu ar-lein, mae dysgwyr gyda ni o wledydd pell ar draws y byd. Dyn ni'n croesawu siaradwyr ieithoedd eraill heblaw Saesneg hefyd.

Mae'r gwersi'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg, ac wrth i'r dysgwyr wneud cynnydd, mae'r cydbwysedd rhwng Saesneg a'r Gymraeg yn newid. Byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau ac esboniadau yn Saesneg mewn dosbarth Mynediad, ac wrth i chi ddeall mwy o Gymraeg bydd y tiwtor yn defnyddio llai o Saesneg yn ystod lefelau Sylfaen a Chanolradd, gan gynyddu defnydd o Gymraeg. Mewn dosbarth lefel Uwch bydd y gwersi'n cael eu cynnal yn Gymraeg. Mae'r cyrsiau lefel Gloywi (Hyfedredd) yn cynnig cyfle i'r dysgwyr mwyaf rhugl - neu siaradwyr newydd - i ddefnyddio eu Cymraeg a pharhau i wella eu sgiliau tra'n dysgu am amrywiaeth ehangach o bynciau.

Cefndir Addysgiadol

Tra bod rhai oedolion sy'n dysgu wedi cael profiadau positif o addysg yn yr ysgol, coleg ac efallai prifysgol, dyn ni'n croesawu pobl i'r cyrsiau a gafodd brofiadau llai positif o addysg, a rhai y mae eu dyddiau addysg ffurfiol yn bell iawn yn ôl. Bydd eich tiwtor yn gwneud ei g/orau i'ch annog ac i helpu chi i fagu hyder a sgiliau dysgu, beth bynnag fo'ch cefndir.

Cefndir Iaith Gymraeg a Dechreuwyr Go Iawn

Bydd pob cwrs Mynediad 1 yn dechrau yn y dechrau, gyda chyflwyniad i ynganu a seiniau'r llythrennau, cyfarchion ac ati. Os dych chi'n gwybod tipyn bach o Gymraeg yn barod, os gwelwch yn dda byddwch yn amyneddgar tra bo'r dosbarth yn canolbwyntio ar



y pethau mwyaf sylfaenol. Mae dysgwyr sydd erioed wedi clywed yr iaith yn elwa o fynychu cwrs Blasu cyn dechrau Mynediad 1, er mwyn cael mwy o amser i ymarfer y seiniau newydd, ond nid yw hyn yn angenrheidiol.

Mae popeth yn dod nôl ata i nawr!

Ydych chi wedi ymuno â chwrs a darganfod eich bod yn cofio mwy nag yr oeddech chi'n disgwyl? Os dych chi'n meddwl byddai'n dda i chi symud i fyny lefel neu ddau, siaradwch â'ch tiwtor yn gyntaf. Bydd staff y swyddfa yn gallu helpu chi i ffeindio cwrs mwy addas, a throsglwyddo eich ymrestriad os dych chi'n hapus gyda'r cwrs newydd.

Mae mor heriol! Ydych chi'n ffeindio hi'n anodd i ddysgu? Siaradwch gyda'ch tiwtor! Mae llawer o bethau gallwch chi wneud i helpu eich cynnydd ac hyder.

- Gwnewch amser rhwng y gwersi i fynd dros yr hyn dych chi wedi dysgu
- Gwnewch eich gwaith cartref bob amser - mae hyn yn eich helpu chi a'ch tiwtor i weld sut dych chi'n dod ymlaen
- Dewch i Sadyrnau Siarad
- Porwch apiau iaith sy'n cynnig adnoddau Cymraeg, e.e. Duolingo
- Dewch i'n digwyddiadau ni i gwrdd â dysgwyr eraill
- Defnyddiwch eich WhatsApp neu Facebook dosbarth i rannu syniadau ac anogaeth
- Ymunwch â dosbarth arall ar yr un lefel, i wneud popeth ddwywaith
- Edrychwch ar y syniadau ar y wefan yn eich Cynllun Defnyddio fy Nghymraeg
- Gwrandewch a Gwyliwch - pobl eraill yn siarad Cymraeg, ar raglenni teledu S4C ac ar Radio Cymru
- Os oes plant gyda chi mewn ysgol Gymraeg, darllenwch gyda nhw a cheisiwch ddefnyddio eich Cymraeg yn eich cartref



- Yn y gwaith, gofynnwch i unrhyw gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg i'ch annog chi i drïo eich Cymraeg gyda nhw
- Ar lefel Canolradd neu Uwch, ymunwch â'r Cynllun Siarad i gael partner sy'n siarad Cymraeg i siarad â chi yn aml
- Caffis mewn amrywiol fannau o gwmpas y Fro.
- Edrychwch am bobl sy'n gwisgo swigod oren – trïwch siarad eich Cymraeg yn y gymuned.



Dathlu a Siarad gyda'n Gilydd

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn trefnu sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn ar gyfer dysgwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Dyn ni'n dathlu gwyliau traddodiadol gan gynnwys y Nadolig, yr Hen Galan a Dydd Gwyl Dewi.

Mae ein calendr digwyddiadau ar www.dysgucymraeg.cymru/yfro

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn trefnu digwyddiadau, rhai ar-lein a rhai mewn lleoliadau.

Gwybodaeth am ddigwyddiadau cenedlaethol yma.

Mae cymdeithasau eraill ar gael sy'n darparu gweithgareddau ar gyfer pobl o bob oedran.

Mudiad Ysgolion Meithrin- i deuluoedd a phlant o dan oed ysgol

Cyswllt <https://meithrin.cymru/>

Yr Urdd - Sefydliad cenedlaethol i bobl ifanc sy'n darparu celfyddydau, chwaraeon, clybiau ieuenctid, prentisiaethau ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Manylion <https://www.urdd.cymru/cy/>

Menter Bro Morgannwg- Cymdeithas sy'n trefnu ac hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg i bob oed

Manylion <https://menterbromorgannwg.org/cy>



Cymrodorion y Barri - Cymdeithas hanesyddol sy'n dod â siaradwyr Cymraeg at ei gilydd i weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol ers dros can mlynedd. Cyfarfodydd misol a rhai digwyddiadau ar y cyd â Dysgu Cymraeg y Fro. Maen nhw'n croesawu dysgwyr o lefel Canolradd i fyny. Manylion <https://www.facebook.com/daviddaviesllandinam/>

Merched y Wawr - Cymdeithas i fenywod a chanddi ganghennau ym Mhenarth a'r Bontfaen. Cyswllt <https://merchedywawr.cymru/>

Gwybodaeth Cysylltu

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn rhan o Wasanaeth Addysg Cymunedol i Oedolion Cyngor Bro Morgannwg. Cyfeiriad ein swyddfa yw:

Dysgu Cymraeg y Fro
Canolfan Dysgu Cymunedol Palmerston,
Cilgant Cadog,
Y Barri
CF63 2NT

Ebost: dysgucymraeg@bromorgannwg.gov.uk

Ffôn: 01446 730402

Byddwn yn ymateb i e-byst a galwadau ffôn cyn gynted â phosibl. Dyn ni'n anelu i ateb pob neges o fewn dau ddiwrnod gwaith dan amgylchiadau arferol.

Oriau agor y swyddfa: 0900-17.00 dydd Llun i ddydd Gwener.

Yn ystod gwyliau'r ysgol efallai bydd amserau agor yn amrywio. Os gwelwch yn dda ffoniwch cyn teithio er mwyn sicrhau ein bod yno.

Facebook: [@learncymraegBRO](https://www.facebook.com/learncymraegBRO)

Twitter: [@LearnWelshBro](https://twitter.com/LearnWelshBro)

Staff Dysgu Cymraeg y Fro



Mae tîm Dysgu Cymraeg y Fro i gyd yn staff Cyngor Bro Morgannwg.

Swyddog Dysgu a Datblygu Cymraeg i Oedolion: R Karl Davies
rkdavies@valeofglamorgan.gov.uk

Uwch Diwtor: Tom Sugg Tomsugg@dysgubro.com

Swyddog Data a marchnata: Suzanne Condon
scondon@valeofglamorgan.gov.uk

Cydlynnydd Cymraeg Gwaith Cyngor Bro Morgannwg: Sarian Thomas-Jones sthomas-jones@valeofglamorgan.gov.uk

Tiwtor Llawn Amser: Llinos Thomas Llinos@dysgubro.com

Tiwtor ar Gytundeb: Shareen Mitchell shareen@dysgubro.com

Tiwtor ar Gytundeb: Ann Davies tiwtorann@dysgubro.com

Tiwtor ar Gytundeb: Rhiannon Norfolk rhiannon@dysgubro.com

Tiwtor ar Gytundeb: Lisa Kondova lisa@dysgubro.com

Gweithiwr Prosiect Dysgu Anffurfiol: Jên Dafis jen@dysgubro.com

Tiwtoriaid Sesiynol:

Macsén Brown macsen@dysgubro.com

Jên Dafis jendafis@dysgubro.com

Phil Davies phil@dysgubro.com

Nia Eyre niaeyre@dysgubro.com

Carmel Gwyn carmel@dysgubro.com

Barbara Harris barbara@dysgubro.com

Elinor Sevenoaks elinor@dysgubro.com

Morgan Waite morgan@dysgubro.com

Dai Williams dai@dysgubro.com

Siân Davies sian@dysgubro.com



Trystan Jones trystanjones@gmail.com

Heledd Williams WILLIAMSH19@Hwbcymru.net

Cynorthwywyr Clerigol:

Elizabeth Richfield erichfield@valeofglamorgan.gov.uk

Ariannu Dysgu Cymraeg

Ariennir Dysgu Cymraeg y Fro drwy grant sy'n cael ei dalu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru. Cytundebir Cyngor Bro Morgannwg i ddarparu rhaglen lawn o gyrsiau Dysgu Cymraeg ar delerau'r Ganolfan Genedlaethol, ac mae Dysgu Cymraeg y Fro yn atebol i'r Ganolfan am ansawdd y ddarpariaeth. Arolygir y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'i holl darparwyr gan Estyn.

Adnewyddwyd cytundeb Cyngor Bro Morgannwg gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2022 am y Flwyddyn Academaidd 2022 ymlaen.